**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref CS/00973/15

William Powell AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Mehefin 2015

Annwyl Bill,

Cyfeiriaf at yr ohebiaeth dyddiedig 8 Mai a anfonwyd at y Pwyllgor Deisebau gan Coed Cadw ynghylch deiseb rhif P-03-537.

Nodaf y pwynt a wnaed gan y Deisebwr sef bod plannu coed a pherthi yn cyfrannu at leddfu effeithiau llifogydd a bod cynlluniau plannu mewn lleoliadau priodol yn cyfrannu at reoli perygl llifogydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynlluniau Glastir - Adfer Coetir, Glastir - Creu Coetir a Glastir - Rheoli Coetir er mwyn cynyddu nifer y coed sy'n cael eu plannu yng Nghymru fel rhan o'i weledigaeth o greu coetiroedd. Rwy'n nodi'r sylw a wnaed am y ffaith nad oes modd mynd i'r afael â'n hamcanion yn y maes hwn drwy Glastir yn unig. Fodd bynnag, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru'n eang wrth fynd ati i lunio Glastir, gan ystyried y sylwadau a wnaed gan y rhanddeiliaid a'u hymgorffori yn y cynllun lle bynnag yr oedd yn bosibl. Mae hynny'n cynnwys y sylwadau a gafwyd gan Coed Cadw. Mae'n bwysig nodi bod yn rhaid i geisiadau Glastir gydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU sy'n rhoi sylw i'r Gyfarwyddeb Llifogydd a luniwyd i gynorthwyo Aelod-wladwriaethau'r UE i atal a chyfyngu ar lifogydd ac i liniaru'r effeithiau niweidiol ar iechyd pobl, yr amgylchedd, y seilwaith ac eiddo.

Yng Nghymru, gwelwyd diddordeb cynyddol yn y defnydd o Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) ar gyfer rheoli dŵr wyneb. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadeirio Gweithgor SDCau sy'n ceisio rhannu arferion da a chynyddu'r defnydd o ddulliau SDCau. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, awdurdodau lleol a datblygwyr. Mae gwaith parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru yn nalgylchoedd Clwyd ac Elwy wedi dangos bod gwahanol ddulliau yn fwy effeithiol yn y gwahanol ddalgylchoedd. Yn yr ardaloedd hyn, mae sawl dull gwahanol wedi'u defnyddio o fewn un dalgylch i reoli llifogydd yn naturiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd ein seilwaith ar gyfer carthffosiaeth a draenio yn dod o dan bwysau cynyddol yn sgil effeithiau newid yn yr hinsawdd a phoblogaeth sy'n cynyddu. Rydym yn cefnogi'r defnydd o SDCau fel ffordd gynaliadwy a chydweithredol o leihau'r effeithiau a ddaw yn sgil y pwysau hyn a byddwn yn cyhoeddi Safonau anstatudol ar gyfer SDCau yn ddiweddarach eleni.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Rydym wedi rhoi cymorth i un o'r cynlluniau sef prosiect Rainscape yn Llanelli drwy gyfrannu dros £600,000 o gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae Rainscape yn darparu systemau newydd, arloesol i reoli faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i'n carthffosydd.

Rydw i hefyd yn ymwybodol am Greener Grangetown sef partneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Dinas Caerdydd, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Efallai y bydd awdurdodau lleol eraill yn penderfynu cadw llygad ar y cynnydd a wneir, ac o bosibl yn ystyried mabwysiadu'r fframwaith fel enghraifft dda o reoli llifogydd. Felly, hoffwn awgrymu bod y Deisebwr yn cysylltu ag awdurdodau lleol eraill i godi ymwybyddiaeth am y fenter fel bod modd iddynt ystyried menter o'r fath fel rhan o'u cynigion a'u dyluniadau ar gyfer cynllunio trefol.

Mae sicrhau bod swyddogion yn bresennol ar lawr gwlad yn ffordd dda o hyrwyddo'r gwaith o greu coetiroedd ac o reoli coetiroedd sy'n bodoli eisoes yn well. Byddwn yn ystyried cefnogi'r cynnig hwn yn ystod y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer grantiau cyllid craidd.


Rydym hefyd yn llwyr gefnogi prosiectau sy'n gweithio mewn modd cydlynol (megis prosiect Pontbren) ac rydym yn awyddus i'w hannog. Drwy weithio mewn partneriaeth, gall tirfeddianwyr a rheolwyr sicrhau bod eu tir yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf drwy greu coetiroedd newydd er mwyn sicrhau nifer o fanteision - cynefinoedd bywyd gwyllt, gwell cyfleoedd busnes, ffynonellau o ynni adnewyddadwy ac wrth gwrs, pan fo'n briodol, ffyrdd o leihau dŵr ffo yn ystod glaw trwm a llifogydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'i rhanddeiliaid a'r sector coedwigaeth i annog cynigion ar gyfer ffyrdd newydd ac arloesol o greu mwy o goetiroedd. Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer ein strategaeth goedwigaeth, Coetiroedd i Gymru.

Hyd yma, mae'r ymateb a gafwyd i Glastir – Creu Coetir wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'r Datganiadau o Ddiddordeb yn cadarnhau hynny. Rwy'n hyderus bod modd i Glastir, fel cynllun amaeth-amgylcheddol a choedwigaeth wneud cyfraniad at atal llifogydd drwy'r opsiynau y mae'n eu cynnig o ran plannu coed megis cynllunio strategol i atal dŵr ffo, creu lleiniau stripedi wrth lannau'r afon a phlannu perthi newydd.

Felly i grynhoi, nid ellir defnyddio un dull unigol i ddatrys y broblem ar gyfer pob achos. Efallai nad cynigion megis plannu coed sy'n cynnig y dull mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r broblem bob tro nac ychwaith sy'n rhoi'r canlyniadau gorau o'u cymharu â dulliau eraill o reoli llifogydd. Am hynny, wrth ystyried cynigion, rhaid rhoi sylw i'r hyn sydd orau ar gyfer y lleoliad o dan sylw a beth yw'r dulliau gorau ar gyfer sicrhau'r canlyniadau.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol